

Executive Summary

Mae 982,000 o bobl yn byw gyda dementia yn y DU ar hyn o bryd. Mae llawer o bobl sy'n byw gyda dementia yn dibynnu ar ofal cymdeithasol, sy'n cyfrif am tua 60% o bobl sy'n defnyddio gofal yn y cartref yn y DU, a 70% o breswylwyr gofal preswyl i bobl hŷn yn Lloegr. Ond eto, ar hyn o bryd, nid oes gofyniad cyfreithiol i staff gofal gael hyfforddiant dementia yng Nghymru, Lloegr na Gogledd Iwerddon. Er bod rhai camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i wella sgiliau'r gweithlu gofal ar draws y tair gwlad, nid yw'r datblygiadau hyd yma wedi sicrhau bod hyfforddiant dementia i staff gofal yn cael y flaenoriaeth, fel sydd angen.

O ganlyniad, dim ond 29% o staff gofal yn Lloegr sy'n ymgymryd ag unrhyw fath o hyfforddiant

dementia, ac yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, nid oes data cenedlaethol cynhwysfawr ar gael ar lefelau hyfforddiant dementia ymysg staff gofal. Mae pobl sydd â dementia a'u gofalwyr yn dweud nad yw'r gofal yn bersonol, gyda llai na hanner (44%) yr unigolion a gafodd eu holi yn Lloegr yn rhoi sgôr cadarnhaol i staff gofal am eu dealltwriaeth o ddementia.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos manteision sylweddol hyfforddiant dementia i bobl sy'n byw gyda dementia, staff gofal, darparwyr gofal a'r system iechyd a gofal ehangach – gan ddangos y gall wella ansawdd bywyd pobl yn aruthrol, gwella boddhad staff mewn swyddi ac arwain at arbedion yn y system iechyd a gofal ehangach.

Manteision hyfforddiant dementia

Pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd	Staff	Darparwyr gofal	Y system ehangach
<p>Derbyn gofal gan staff sy'n gallu deall yr anghenion sy'n datblygu sy'n gysylltiedig â dementia.</p> <p>Darparu dull iachach a mwy moesegol o gefnogi anghenion cymhleth fel aflonyddwch meddwl.</p> <p>Lleihau achosion o roi cyffuriau gwrthseicotig a meddyginiaethau seicotropig eraill ar bresgripsiwn yn amhriodol.</p> <p>Hyrwyddo perthnasoedd o ansawdd gwell.</p> <p>Galluogi gofal sy'n gymwys yn ddiwylliannol.</p>	<p>Gwell agweddau tuag at ddementia.</p> <p>Mwy o wybodaeth a hyder.</p> <p>Lefelau uwch o foddhad yn y swydd.</p> <p>Llai o drosiant yn y gweithlu</p> <p>Potensial i leihau straen a gorflinder.</p>	<p>Ymgysylltu'n well â'r tîm staff.</p> <p>Mwy o weithgarwch ac ymgysylltiad rhwng staff a phobl sy'n byw gyda dementia.</p> <p>Gwell perthynas â'r teulu.</p> <p>Enw da gyda rheoleiddwyr a chomisiynwyr lleol.</p> <p>Amgylchedd ffisegol gwell.</p>	<p>Llai o ymweliadau i weld y meddyg teulu.</p> <p>Llai o ymweliadau ag ysbytai.</p>

Ar sail y dystiolaeth hon, rydym yn galw ar lywodraethau cenedlaethol i sicrhau bod holl staff gofal yn cael hyfforddiant dementia. Rydym hefyd yn cyflwyno argymhellion i awdurdodau lleol a darparwyr gofal ar y camau y gallant eu cymryd nawr i wella ansawdd hyfforddiant dementia a'r nifer sy'n cael yr hyfforddiant. Rydym yn defnyddio dwy enghraifft o arfer gorau i ddangos sut gellir gwneud hyn yn effeithiol am gost gymharol isel, gan ddangos y gallai buddsoddiad bach mewn hyfforddiant dementia o ansawdd uchel arwain at fanteision sylweddol ehangach i'r system. Er enghraifft, roedd un treial hyfforddiant dementia

hirsefydlog wedi dangos arbedion cost o £2,000 i'r system iechyd ehangach fesul cartref gofal, y flwyddyn (drwy leihau'r angen am ofal iechyd sylfaenol, gofal ysbyty, gofal brys a gofal cymunedol).

Mae ansawdd yr hyfforddiant yn hanfodol ar gyfer hyfforddiant dementia i staff gofal. Rydym wedi adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael am yr hyn sy'n gwneud hyfforddiant dementia effeithiol ac wedi crynhoi hyn yn bum elfen allweddol, fel y nodir yn y tabl ar y dudalen nesaf.

Elfennau allweddol ar gyfer gweithredu hyfforddiant dementia effeithiol

1. Dylunio hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth

- Dylai dyluniad yr hyfforddiant fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylai gynrychioli amrywiaeth lawn profiad bywyd pobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr di-dâl a staff. Gall darparwyr asesu ansawdd hyfforddiant dementia gan ddefnyddio'r adnodd DeTDAT (Offeryn Archwilio Dylunio a Darparu Hyfforddiant Dementia).
- Dylai darparwyr ddatblygu neu gael gafael ar adnoddau gwerthuso priodol (er enghraifft, arolygon adborth).

2. Dull cyflwyno effeithiol

- Dylai'r hyfforddiant ddefnyddio cyfuniad o ddulliau cyflwyno gyda hwylusydd profiadol, gan gynnwys dysgu wyneb yn wyneb neu ar-lein mewn grŵp er mwyn gallu myfyrio. Os defnyddir addysgu hunangyfeiriedig neu addysgu yn yr ystafell ddosbarth, dylid eu cyfuno â dulliau rhyngweithiol a defnyddio hwylusydd medrus a phrofiadol.

3. Dysgu digidol cynhwysol

- Dylid ystyried sgiliau digidol dysgwyr a hygyrchedd dysgu digidol. Lle bo'n briodol, dylai hyfforddiant digidol fod ar gael ar ddyfeisiau'r dysgwr ei hun er mwyn galluogi hyblygrwydd.

4. Cymorth a hygyrchedd

- Mae cymorth rhyngweithiol byw fel hyfforddiant, mentora ffurfiol, goruchwyliaeth a/neu gefnogaeth gan gymheiriaid yn hanfodol i gefnogi llesiant. Dylai'r hyfforddiant fod yn berthnasol ac yn realistig i rôl, profiad, llythrennedd iaith Saesneg a lefel sgiliau'r hyfforddeion, gan ystyried cefndiroedd diwylliannol y staff a'u cleientiaid.

5. Arweinyddiaeth gref

- Mae arweinyddiaeth effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod effaith hyfforddiant dementia yn cael ei chynnal, ac i wreiddio diwylliant sefydliadol sy'n parchu ac yn meithrin dysgu. Gall hyrwyddwyr dementia gefnogi'r gwaith o weithredu'r hyfforddiant a sicrhau ei gynaliadwyedd.

Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at fanteision hyfforddiant dementia o ansawdd uchel i staff gofal ac yn dangos sut gellir cyflawni hyn. Mae'r achos dros newid yn glir. Yr hyn sydd ei angen nawr yw gweithredu'n gyflym, gyda llywodraethau ac arweinwyr systemau lleol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wella hyfforddiant dementia. Mae ein hargymhellion yn dangos sut gellir cyflawni newid.